Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/FM/1831/14

David Melding AC
Cadeirydd
Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20fed Hydref 2014

Annwyl David,

**Ymateb i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd 2010**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 22 Medi, a oedd yn gosod pwyntiau ac argymhellion y pwyllgor yn dilyn y sesiwn graffu.

**<u>Targedau Newid yn yr Hinsawdd</u>**

Mae'n Rhaglen Lywodraethu yn datgan unwaith eto ein hymrwymiad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu gyda'n gilydd i gyflawni ein nodau. Fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod y dystiolaeth wyddonol a'n cyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

O ran targedau lleihau allyriadau, mae gennym ymrwymiad hirdymor i dargedau uchelgeisiol sef gostyngiad blynyddol o 3% mewn meysydd datganoledig a gostyngiad cyffredinol o 40% erbyn 2020. Mae'r prif ymrwymiad hwnnw wedi'i gadarnhau eto yn ein Rhaglen Lywodraethu, ac yn ategu ein blaenoriaethau o weithio i sicrhau economi ffyniannus, carbon isel i greu twf a swyddi cynaliadwy; helpu teuluoedd agored i niwed a chymunedau difreintiedig; a gwella iechyd a lles.

Gan fod Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU eisoes yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i adrodd ar gynnydd, ceir gwybodaeth ynghylch yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein targedau yn ein Hadroddiad Blynyddol, ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd. Hefyd mae'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn golygu bod targed yng nghyfraith y DU i sicrhau 80% o ostyngiad mewn allyriadau erbyn 2050. Felly gan fod y targed hwn a'r fframwaith adrodd perthnasol eisoes yn eu lle, a gan nad yw'r setliad datganoli presennol yn cynnwys pwerau pwysig mewn meysydd fel ynni - fel y dywedais yng nghyfarfod y Pwyllgor - nid wyf yn gweld y byddai targedau statudol eraill ar newid yn yr hinsawdd yn cynnig gwerth ychwanegol na gwahaniaeth ymarferol. Er mwyn i dargedau statudol effeithio ar berfformiad, rhaid i'r atebolrwydd gyfateb yn glir i'r cyfrifoldeb dros gyflawni, a rhaid i'r gosb ar gyfer peidio â chyflawni fod yn glir hefyd. Fel Llywodraeth fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn llawn bod rheidrwydd gwyddonol dros weithredu a bod cyfrifoldeb arnom i gymryd camau ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

**Cyllidebau Carbon**

O ran cyllidebau carbon, mae'r holl weinyddiaethau datganoledig yn syrthio dan fframwaith a osodwyd gan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Mae hyn yn golygu bod angen gosod lefel genedlaethol ar gyfer leihau allyriadau mewn gwahanol sectorau o'r economi, yn unol â tharged cyffredinol o 80% o ostyngiad erbyn 2050 o gymharu â lefelau 1990. Mae cyfraniadau'r gweinyddiaethau datganoledig felly yn cael eu hystyried pan fo cyllidebau carbon yn cael eu gosod gan Lywodraeth y DU. Yn ogystal â hynny, fel yr awgrymais wrth y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i werthuso effaith carbon ein polisïau a'n rhaglenni fel amlinellwyd yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy presennol.

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn adeiladu ar ein hymrwymiad drwy osod gweithredu ar newid yn yr hinsawdd wrth galon chwech o nodau llesiant. Mae hyn yn cael ei sicrhau drwy gyfeirio'n uniongyrchol at y nod o gael economi carbon isel a Chymru gydnerth â'r gallu i addasu i heriau pwysig fel newid yn yr hinsawdd. Mae'r Bil hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig mesur i ba raddau mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r chwech o nodau llesiant. Bydd hyn yn adeiladu ar ein harfer hirdymor o fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr fel rhan o'n dangosyddion datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru.

Y nod yw i'r Bil ddarparu strwythur cyfreithiol er mwyn helpu Cymru i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy, gan sicrhau bod cyrff cyhoeddus penodol gan gynnwys Gweinidogion Cymru'n gweithredu yn y ffordd orau i wella llesiant pobl a chymunedau Cymru, heddiw ac yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, bydd y nodau llesiant felly'n datblygu a phrif-ffrydio'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

**Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd**

Mae'r cynllun ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn rhoi sylw i bymtheg amcan sy'n cwmpasu materion fel teithio rhwng y dwyrain a'r gorllewin mewn ffordd fwy diogel, rhwydd a dibynadwy yn ne Cymru, a'r defnydd gorau posibl o'r M4 presennol, y rhwydwaith ffyrdd lleol a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill. Mabwysiadwyd y Cynllun yn dilyn proses asesu drylwyr sydd wedi ystyried yr holl faterion perthnasol, gan gynnwys effaith y Cynllun ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Cyhoeddwyd manylion yr asesiadau yn: www.m4newport.com.

Bydd y gwaith asesu manwl, gan gynnwys ystyriaeth o effaith nwyon tŷ gwydr, yn parhau wrth i'r Cynllun symud ymlaen a'r llwybr a ffefrir gael ei ddatblygu. Byddwn yn sicrhau bod systemau yn eu lle i asesu, cyfrif a lleihau effaith carbon yn ystod cam dylunio ac adeiladu'r prosiect.

**Sector Preswyl**

O ran rheoliadau adeiladu, fel yr amlinellais i'r Pwyllgor rydym eisoes wedi ymrwymo i adolygu Rhan L o'r rheoliadau yn 2016 yn unol â datganiad Gweinidogol ym mis Medi 2013.

Roedd sawl ffactor yn cyfrannu at y penderfyniad mewn perthynas â'r lefel o 8% o ostyngiad carbon. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch costau adeiladu uwch ar adeg pan fo llai o dai yn cael eu hadeiladu yn sgil y dirwasgiad, llai o fynediad at gyfalaf, safleoedd cynyddol anymarferol, gostyngiad o ganlyniad mewn tai fforddiadwy posibl drwy gytundebau cynllunio adran 106 a phryder cynyddol am effaith y newidiadau sydd i ddod i'r system budd-dal tai. Adlewyrchwyd y pryderon hyn yn ymatebion ymgynghoriad y sectorau adeiladu a thai.

Roedd y gwaith a ddefnyddiwyd wrth greu'r papur ymgynghori hefyd yn cynnwys ystyriaeth o effaith gronnol polisïau sy'n effeithio ar adeiladu tai newydd. Un o'r rhain yw ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i'w gwneud yn ofynnol gosod systemau chwistrellu mewn eiddo preswyl newydd, a ddaeth i rym ar 30 Ebrill 2013 ar gyfer llety risg uwch, ac a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2016 ar gyfer tai newydd ac wedi'u haddasu.

Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, modelwyd targedau amgen ar gyfer arbed ynni ar sail gwella deunyddiau adeiladu heb angen ynni adnewyddadwy, gan ganolbwyntio ar yr ystod rhwng 8% a 25% yn well na Rheoliadau Adeiladu 2010 ar y pryd - y targed cyntaf yn cynrychioli'r hyn sy'n ofynnol yn ôl polisi cynllunio cenedlaethol drwy Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 22. Un o'r prif ystyriaethau oedd yr angen i arbed ynni heb gynyddu aerglosrwydd hyd at lefelau sy'n gofyn am awyru peirianyddol, ar adeg pan oedd pryder ynghylch sicrhau safonau ansawdd yr aer. Aseswyd y gwaith modelu ychwanegol gan Bwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu, dan gadeiryddiaeth yr Athro Phil Jones o Ysgol Pensaernïaeth Prifysgol Caerdydd. Cyhoeddwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol yn http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/140204building-regs-part-l-changes-impact-assessment-en.pdf

**Newid Ymddygiad ac Addysg**

Fel Llywodraeth rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol ynghylch newid yn yr hinsawdd, ac yn nodi'r adborth ar y mater hwn gan Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'n gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch y newid yn yr hinsawdd a byw'n gynaliadwy wedi cynnwys gwaith arloesol ar newid ymddygiad, ac rwy'n anghytuno â'r honiad iddo ddilyn dull gweithredu o'r brig i lawr. Mae'n gwaith ymgysylltu ar y newid yn yr hinsawdd drwy raglenni fel Cynefin yn dangos sut rydym yn trafod â chymunedau ar lefel leol, gan gysylltu newid yn yr hinsawdd gyda'u pryderon presennol a'u grymuso i weithredu. Hefyd hoffwn dynnu sylw at yr hyn a ddysgwyd yn ein gwaith gyda Phrifysgol Caerdydd, sef y ffaith bod cyfathrebu ar newid yn yr hinsawdd yn aml yn fwyaf effeithiol pan fo'n gysylltiedig ag agweddau eraill, felly mae'n bwysig edrych ar feysydd allweddol fel llifogydd, gwastraff, arbed ynni a thwf gwyrdd. Mae llwyddiant mewn meysydd o'r fath yn gosod sylfaen a chreu llwybr i unigolion ac yn ehangach i Gymru gyfan tuag at gymdeithas carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau’n effeithlon ac sy'n fwy teg.

Hefyd mae mentrau penodol fel y prosiect Eco-Sgolion yn annog pobl ifanc i ystyried her y newid yn yr hinsawdd, sut i gyfrannu at y gwaith o leddfu'r effeithiau a dylanwadu ar eraill i addasu eu bywydau bob dydd i fod yn fwy cynaliadwy. Yng Nghymru, mae gennym un o'r rhaglenni eco-ysgolion mwyaf llwyddiannus yn rhyngwladol, gydag 8% o gyfanswm byd-eang y Baneri Gwyrdd a 430,000 o blant ysgol wedi'u cofrestru ar y rhaglen. Felly rwy'n falch iawn o ddweud y byddwn nes ymlaen eleni yn cynnal cynhadledd ryngwladol yr eco-ysgolion ym mis Rhagfyr.

Mae'r Athro Donaldson ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr, annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Bydd yr Athro Donaldson yn cyflwyno'i argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar droad y flwyddyn. Byddwch yn deall ei bod yn rhy gynnar i ddyfalu beth fydd canlyniad yr adolygiad ar hyn o bryd.

## Ynni Cymunedol

Mae rhaglen Ynni'r Fro, a lansiwyd yn 2010, yn fuddsoddiad tymor hir yng ngallu ac annibyniaeth cymunedau Cymru. Mae'n dadansoddiad economaidd yn dangos bod Ynni'r Fro hyd yma wedi darparu manteision net gwerth o leiaf £11.8 miliwn, sy'n cyfateb i £1.36 am bob £1 sy'n cael ei wario. Hefyd mae manteision parhaol pellach o ran sgiliau a gallu o fewn cymunedau sydd wedi bod yn rhan o'r prosiectau. Mae Ynni'r Fro wedi datblygu 56 prosiect lleol ar draws Cymru, a bydd pump o leiaf yn cael eu hadeiladu ac yn cynhyrchu trydan erbyn mis Mawrth 2015. Fodd bynnag, mae'r prosiectau yn aml yn ddatblygiadau technegol cymhleth, ac mae hyn yn tanlinellu natur tymor hir y gwaith.

Er bod y rhaglen i ddod i ben ym mis Mawrth 2015, rydym yn cydnabod bod angen i'r cymorth barhau. Felly mae swyddogion yn datblygu rhaglen ddilynol o gymorth i'r sector. Fel rhan o'r broses, rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion datblygu technegol Ynni'r Fro (nifer ohonynt hefyd yn aelodau o Ynni Cymunedol Cymru), grwpiau cymunedol, Canolfan Cydweithredol Cymru, datblygwyr ynni adnewyddadwy a chynrychiolwyr eraill o'r trydydd sector. Wrth wneud hynny, ein nod yw sicrhau bod cam nesaf y cymorth yn fwy hygyrch i gymunedau agored i niwed lle mae cyfleoedd i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, gan barhau gyda'n hymrwymiad i helpu cymunedau i gynhyrchu ynni a gwireddu'r manteision a ddaw yn ei sgil.

## Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ar faterion Newid yn yr Hinsawdd

Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae ymateb i newid yn yr hinsawdd a hwyluso datblygu cynaliadwy wrth galon ein Rhaglen Lywodraethu. Dyma brif faterion sy'n effeithio ar bob maes polisi ac sy'n effeithio ar bob un o ddinasyddion Cymru. Rydym yn cydnabod bod her y newid yn yr hinsawdd yn gofyn am ymateb ar draws y llywodraeth gyfan. Felly nid yw'n fater syml o ddarparu adnodd canolog. Rhaid i bob portffolio ystyried ei gyfraniad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau peryglon, ac mae'n hadroddiadau blynyddol yn dangos sut mae'r camau hyn yn cael eu cymryd ar draws adrannau.

O ran fy swyddogaeth fel Prif Weinidog, rwyf am bwysleisio bod ymateb effeithiol i'r newid yn yr hinsawdd yn hanfodol ar gyfer cyflawni'n hamcanion a bod pwyslais ar hynny yn y Rhaglen Lywodraethu yr wyf yn ei harwain. Mae'n hamcanion ar y newid yn yr hinsawdd yn mynd law yn llaw gyda'n nod o sicrhau Cymru lewyrchus, carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac sy'n gynhwysol yn gymdeithasol. Hefyd mae penodi Gweinidog arweiniol ychwanegol yn cadarnhau ein ffocws ar gyflawni yn y maes hwn, ac yn sicrhau ein bod yn medru chwarae rhan lawn a gweithredol yn rhyngwladol, yn ôl ein hymrwymiad i wneud hynny.

## Staff Llywodraeth Cymru yn Beicio

Yn olaf, cytunais hefyd i ysgrifennu am gymorth Llywodraeth Cymru i staff fedru teithio ar feic i'r gwaith. Rydym wedi bod yn buddsoddi mwyn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio ar draws ein prif safleoedd, gan gynnwys darparu amrywiol gyfleusterau ac adnoddau i helpu staff ac ymwelwyr i feicio i ac o'n swyddfeydd. Gall staff hefyd fanteisio ar y Cynllun Cyflog Cynnar i brynu beic, gan eu galluogi i ad-dalu'r gost dros gyfnod o ddeuddeg mis. Rydym ni hefyd yn datblygu Strategaeth Beicio ar gyfer ein staff, gyda'r nod o annog gymaint o staff ag sy'n bosibl i ddewis beicio fel ffordd o deithio i'r gwaith.

Yn gywir



**CARWYN JONES**